



[www.furthermaths.org.uk/wales](http://www.furthermaths.org.uk/wales)

Astudiaeth Achos Ysgol Uwchradd  
St John Baptist

Cyfeiriad Glan Road,  
Aberdâr,  
Rhondda Cynon  
Taf,  
CF44 8BW.

Nifer o fyfyrwyr  
16 – 18 oed  
2013/14 250



#### Astudiaeth Achos:

### Athro a Thiwtor FMSP – Mr Gareth Chivers – Pennaeth Mathemateg

#### Darparu Mathemateg Bellach:

O'r 5 o staff sy'n addysgu Mathemateg Safon Uwch mae 3 yn addysgu modiwlau mathemateg pellach. Ym mlwyddyn 13, mae 30 o ddisgyblion yn astudio Safon Uwch, a 4 ohonynt hefyd yn astudio Mathemateg Bellach Safon ar hyn o bryd. Ym mlwyddyn 12, mae 70 o ddisgyblion yn astudio Mathemateg AS gyda 11 o ddisgyblion hefyd yn astudio Mathemateg Bellach. Gyda'r manylebau newydd bydd disgyblion yn sefyll TGAU ym mis Tachwedd a Mathemateg Ychwanegol ar ddiwedd Blwyddyn 11

Ym Mlwyddyn 12 mae pob disgybl yn cael 8 awr bob pythefnos o addysgu wedi ei amserlennu. Ym Mlwyddyn 13 maent yn cyfuno gyda'r grŵp Mathemateg ar gyfer M1 am 2 awr bob pythefnos. Maent yn cael 6 awr bob pythefnos ar gyfer FP1, FP2 a FP3 wedi eu hamserlennu. Mae'r 8 gwrs yma yn cael eu hamserlennu o fewn y bloc opsiwn. Yna bydd disgyblion yn cael 5 gwrs arall bob pythefnos wedi'i hamserlennu, dau ar gyfer S2 a 3 ar gyfer M2 a M3. Mae'r 5 gwrs yma yn cael eu hamserlennu, ond mae'r amseriadau yn cael eu cytuno rhwng staff a disgyblion pan fyddant yn rhydd.

Fel adran yr her yw cynnal cwrs heriol i astudio ar gyfer disgyblion B11 er mwyn eu paratoi ar gyfer Safon Uwch. Un arall yw i ddatblygu mwy o staff i fod allu addysgu mwy o fodiwlau Mathemateg Pellach.

Rwy'n gobeithio bydd maint y dosbarth yn tyfu o ran maint. Eleni, mae gennym ddau o ddisgyblion o Gonsortium Cwm Cynon yn astudio Mathemateg Bellach am y tro cyntaf. Mae gennym hefyd fyfyrwyr yn ymuno â'n Chweched Dosbarth o ysgolion Merthyr, mae llawer wedi dewis Mathemateg a chwech wedi dewis Mathemateg Bellach.

## **Darpariaeth hyfforddiant Mathemateg Bellach drwy FMSP Cymru**

Rwyf wedi bod yn diwtor gyda FMSP ers iddo gael ei gyflwyno. Rwyf wedi dysgu modiwlau ar-lein a sesiynau adolygu wyneb yn wyneb. Mae hyn wedi fy ngalluogi i gael mynediad i Integral sydd â llawer iawn o adnoddau sy'n ddefnyddiol iawn

Rwyf wedi anfon myfyrwyr i'r Dosbarth Meistr Algebra Uwch. Mae hyn yn gwella eu hyder wrth ddatrys problemau a defnyddio eu medrau algebraidd. Mae hefyd yn rhoi profiad amhrisiadwy iddynt gwrrdd â chyd-fyfyrwyr o ysgolion eraill ar Gampws y Brifysgol

Mae FMSP hefyd wedi cefnogi a helpu i baratoi myfyrwyr ar gyfer papurau STEP. Mae'r darlithoedd hyn wir yn cyfoethogi eu profiadau o Fathemateg lefel Uwch. Hefyd rhoddod FMSP gyfweiliadau ffug i fyfyrwyr sy'n gwneud cais i Rydychen neu Gaergrawnt ac rhoi profiad iddynt o drafod problemau mathemategol gyda rhywun nad ydynt wedi cwrdd o'r blaen.

Mae myfyrwyr wedi mynychu sesiynau adolygu ar-lein ac wyneb yn wyneb ac wedi cael budd o rhain. Fel adran rydym yn defnyddio'r llenyddiaeth a gynhyrchwyd gan FMSP i hysbysu myfyrwyr am y manteision o astudio Mathemateg Bellach ar nosweithiau agored Chweched Dosbarth.

## **Manteision Astudio Mathemateg Bellach**

Mae cynnig Mathemateg Bellach yn caniatáu i ddisgyblion gael eu hystyngwch ar draws CA4 a CA5. Mae'r disgyblion hyn yn magu hyder yn eu gallu Mathemateg ac yn rhoi mantais iddynt wrth wneud cais i'r prifysgolion gorau ar gyfer pynciau cysylltiedig â Mathemateg ee Rhydychen, Caergrawnt, Warwick, Caerfaddon. Ni fydd disgybl sydd ond yn astudio Mathemateg Lefel A yn cael unrhyw wybodaeth am Rhifau Cymhlyg neu Matricsau, dau o bynciau allweddol ar gyfer graddau sydd â chysylltiad Mathemategol.

Weithiau, nid yw myfyrwyr sy'n dymuno astudio Meddygaeth yn sylweddoli y bydd nifer o Brifysgolion yn cynnwys Mathemateg Bellach yn un o'r pynciau yn eu cynnig. Mae'r FMSP yn cynhyrchu dogfen i ddangos y Prifysgolion sy'n gwneud hynny. Mae hyn wedi bod yn ddefnyddiol pan fydd disgyblion yn penderfynu ar eu pynciau ym mlwyddyn 13 yn dilyn eu canlyniadau AS.

Mae'r FMSP wedi rhoi cyfle i fyfyrwyr gael eu haddysgu gan wahanol ddarlithwyr/athrawon o sefydliadau eraill. Maent yn dysgu i addasu i ddulliau pobl eraill ac mae hyn yn cyfoethogi eu profiadau o'r pwnc.